Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

# Newyddion Dysgu Cymraeg
# Learn Welsh Latest

**Gwanwyn**
**Spring**
**2023**



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

# Croesawu Dona

Mae Dona Lewis wedi dechrau ar ei rôl newydd fel Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Bu Dona'n gweithio fel Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cynllunio a Datblygu'r Ganolfan ers ei sefydlu yn 2016. Mae wedi arwain nifer o raglenni, gan gynnwys 'Cymraeg Gwaith', cynllun i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle, a bu'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau corfforaethol y sefydliad hefyd.

Magwyd Dona ger Abergele ac astudiodd Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fe dreuliodd 16 mlynedd yn gweithio i'r Mudiad Meithrin mewn gwahanol rolau, gan gynnwys Cyfarwyddwr Gweinyddol, Dirprwy Brif Weithredwr a Phrif Weithredwr Dros Dro.

Meddai Dona: "Mae 'na fwrlwm yn y sector Dysgu Cymraeg, gydag arwyddion cadarnhaol bod y galw am gyrsiau yn cynyddu, a dw i'n edrych ymlaen at arwain y Ganolfan trwy'r cyfnod cyffrous nesaf."

# Croeso, Dona

Dona Lewis has started her new role as Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh.

Dona was previously the Centre's Deputy Chief Executive and Director of Planning and Development, joining the Centre when it was founded in 2016. She has led several programmes, including 'Work Welsh', a scheme to strengthen bilingual skills in the workplace. She was also responsible for introducing the Centre's corporate services.

Dona was brought up near Abergele and studied History at Aberystwyth University. She worked for Early Years' specialists, Mudiad Meithrin, for 16 years in a variety of roles, including Director of Administration, Deputy Chief Executive and Acting Chief Executive.

Dona said: "There is much interest in the Learn Welsh sector, with promising signs the demand for courses is increasing, and I'm looking forward to leading the Centre through its next exciting phase."



# Adnoddau newydd trwy gyfrwng ieithoedd amrywiol

Mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi lansio pecyn adnoddau fel rhan o'r cynllun 'Croeso i Bawb'. Mae'r adnoddau yn cyflwyno'r Gymraeg a Chymru i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg.

Mae modiwl hunan-astudio digidol, sy'n cyflwyno dysgwyr i bobl a llefydd Cymru, ar gael yn Wcreineg, Cantoneg, Arabeg Syria, Farsi a Pashto.

Mae un o bartneriaid y Ganolfan, SaySomethinginWelsh, hefyd yn cynnig cyrsiau Dysgu Cymraeg ar-lein trwy gyfrwng Arabeg Syria, Pashto, a Dari.

Mae cwrs blasu Dysgu Cymraeg, nad yw'n defnyddio unrhyw Saesneg, eisoes ar gael o dan arweiniad tiwtor, ac fel rhan o'r pecyn newydd, mae hefyd ar gael fel adnodd hunan-astudio ar-lein.

Lansiwyd y pecyn adnoddau mewn digwyddiad yn Oasis, Caerdydd, elusen sy'n cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches, lle rhannodd Zaina Aljumma a Gosia Rutecka eu profiadau o symud i Gymru ac o ddysgu'r Gymraeg.




**Yn y llun, o'r chwith i'r dde/Pictured from left to right: Dona Lewis, Zaina Aljumma, Gosia Rutecka, Helen Prosser.**

# New resources through the medium of a variety of languages

The National Centre has launched new resources as part of its 'Croeso i Bawb' (Welcome to All) programme. The resources introduce the Welsh language and Wales to people whose first language is not English or who do not speak much English.

A self-study digital module, which introduces learners to Wales's people and places, is available in Ukrainian, Cantonese, Syrian Arabic, Farsi and Pashto.

One of the Centre's partners, SaySomethinginWelsh, is also offering online Learn Welsh courses through the medium of Syrian Arabic, Pashto, and Dari.

A Learn Welsh taster course, which doesn't use any English, is already available in a tutor-led format, and as part of the new package of resources, the course will be offered as a self-study online programme.

The resources were launched at an event at Oasis, Cardiff, a charity that supports refugees and asylum seekers. Zaina Aljumma and Gosia Rutecka shared their experiences of moving to Wales and of learning Welsh.

# Pobl ifanc

Bydd y Ganolfan Genedlaethol, ar y cyd â chwmni SaySomethinginWelsh, yn ymestyn cynllun peilot i hyd at 15 o ysgolion uwchradd.

Mae'r peilot yn rhan o gynllun newydd y Ganolfan, 'Ymlaen gyda'r dysgu', sy'n darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg i bobl ifanc 16-25 oed.

Nod y cynllun peilot yw atgyfnerthu sgiliau Cymraeg dysgwyr ifanc a datblygu eu hyder, er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ein hysgolion.


# Young people

The National Centre, in partnership with SaySomethinginWelsh, will extend its pilot scheme to up to 15 secondary schools.

The pilot is part of the Centre's new programme, 'Ymlaen gyda'r dysgu' (On with the learning) which provides Learn Welsh services to young people aged 16-25.


The aim of the pilot scheme is to reinforce young learners' Welsh language skills, and develop their confidence, in order to increase the use of Welsh in our schools.












# Mwynhau darllen gyda ni

Mae'r gyfres o lyfrau i ddysgwyr, Amdani, yn dathlu ei phumed pen-blwydd eleni, a hyd yma, mae oddeutu 40 o deitlau wedi'u cyhoeddi.

Mae'r gyfres – ffrwyth partneriaeth rhwng y Ganolfan Genedlaethol a Chyngor Llyfrau Cymru – yn cynnwys pob math o lyfrau hamdden, o hunan-gofiannau i nofelau ditectif, sy wedi'u graddoli yn ôl y lefelau Dysgu Cymraeg.

Yn ystod 2023, bydd pob teitl yn y gyfres hefyd ar gael fel llyfr llafar.

Bob blwyddyn, mae Gŵyl Ddarllen Amdani yn dathlu'r gyfres ac yn hyrwyddo'r holl gyfleoedd i'n dysgwyr fwynhau defnyddio eu Cymraeg trwy ddarllen.

# Enjoy reading with us

The series of books for Welsh learners, Amdani, celebrates its fifth birthday this year, and to date, around 40 different titles have been published.

The series – the result of a partnership between the National Centre and the Books Council of Wales – includes all kinds of leisure books, from autobiographies to detective novels, which are graded according to the Learn Welsh learning levels.

During 2023, every title in the series will also be available as a talking book.

Every year, the Amdani Festival of Reading celebrates the series and promotes all the opportunities for our learners to enjoy their Welsh by reading.

Amdani
Gŵyl Ddarllen Dysgu Cymraeg
Learn Welsh Festival of Reading



# Dathlu'r deugain - annog dysgwyr i fynd amdani yng nghystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn 2023

Mae dysgwyr Cymraeg yn cael eu hannog i roi cynnig ar gystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023, 40 mlynedd ar ôl i'r wobr gyntaf i ddysgwyr gael ei chyflwyno.

Shirley Flower o Glwyd oedd enillydd y gystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn gyntaf un, a gynhaliwyd yn Eisteddfod Llangefni ym 1983.  Ers hynny, mae'r gystadleuaeth wedi'i chynnal 36 o weithiau.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i ddysgwyr dros 18 oed sy'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd.  Mae'r ffurflen gais ar wefan yr Eisteddfod a'r dyddiad cau yw 1 Mai. Bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi yn yr Eisteddfod ar ddydd Mercher, 9 Awst.



40

**Yn y llun mae Joe Healy, enillydd Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod Ceredigion 2022.**

**Joe Healy won the Learner of the Year award at the Ceredigion Eisteddfod in 2022.**

# Nominations open for 'Learner of the Year' award, as competition celebrates 40th anniversary

Welsh learners are being encouraged to enter the 'Dysgwr y Flwyddyn/Learner of the Year' competition at the 2023 Llŷn and Eifionydd National Eisteddfod, 40 years after the competition was first launched.

Shirley Flower from Clwyd was the winner of the first ever Learner of the Year competition, which took place at the 1983 Llangefni Eisteddfod.  Since then, the competition has been held 36 times.

The competition is open to learners aged 18 and above who are confident using the language in their everyday lives.  The application form can be found on the Eisteddfod's website, and the closing date is 1 May.  The winner will be announced at the Eisteddfod on 9 August.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn